# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 5 Chwefror 2021 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 8 Chwefror 2021 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 15 Chwefror 2021 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai

**PWNC:** Prynu Gwynedd, 20 Ffordd yr Ala, Pwllheli, er mwyn diwallu anghenion digartrefedd

**PENDERFYNIAD –** I brynu Gwynedd, 20 Ffordd yr Ala, Pwllheli, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd
Yr Aelod Lleol

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Lowri Cadwaladr Roberts<br>Rheolwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 05:02:2021 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : Prynu Gwynedd, 20 Ffordd yr Ala, Pwllheli, er mwyn diwallu anghenion digartrefedd**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

I brynu Gwynedd, 20 Ffordd yr Ala, Pwllheli, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae'r Adran Tai ac Eiddo wedi adnabod yr angen i gaffael unedau preswyl er mwyn diwallu anghenion Digartrefedd ofewn y sir, gydag angen penodol wedi ei adnabod ym Mhwllheli.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Adnabyddwyd 20 Ffordd yr Ala fel eiddo addas i'w addasu ar gyfer darparu dwy uned breswyl.

Gwnaed cais am arian grant o gronfa Gwedd 2 Digartrefedd y Llywodraeth ar gyfer y cynllun yma, a bu'r cais hwnw yn llwyddiannus. Bydd arian grant felly yn ariannu yr holl gostau sy'n gysylltiedig a phryniant yr eiddo, yn ogystal a chostau addasu'r eiddo yn ddau fflat.

Unwaith bo'r eiddo yn weithredol, bydd yn darparu unedau preswyl ar gyfer cyfarch angenion cleientiaid digartrefedd, a bydd y dderbynneb rhent yn ddigonol i gyfarch costau cynnal a chadw ynogystal ac unrhyw gostau rhedeg sy'n gysylltiedig a'r adeilad.

Nid oes unrhyw fwriad i dalu mwy na gwerth y farchnad am yr eiddo.

Mae gofyn i Aelod Cabinet Tai ac Eiddo gymeradwyo’r penderfyniad i brynu yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor dyddiedig Mai 2015.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

**Prif Swyddog Cyllid** – Gallaf gadarnhau bod yr arian yn ei le ar gyfer pryniant 20 Ffordd yr Ala, Pwllheli fel un o’r cynlluniau sy’n cael eu hariannu gan Grant Digartrefedd Rhan 2 Llywodraeth Cymru. Nid oes gennyf wrthwynebiad i’r pryniant o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Swyddog Monitro** – Dim sylwadau i’w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Aelod/au Lleol** – Y Cynghorydd Dylan Bullard

Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i brynu'r eiddo ar Yr Ala i gartrefu pobl leol digartref.